

Tasg 2

Ble aeth yr Haul?!

'Slawer dydd, doedd pobl ddim yn deall llawer am eclips yr haul. Doedd ganddyn nhw ddim gwyddoniaeth i ddangos ac egluro beth oedd yn digwydd.

Dyna pam, felly:

- roedd pobl Mecsico'n credu bod eclips yn digwydd pan oedd yr haul a'r lleuad yn cweryla
- roedd pobl Tahiti'n credu mai syrthio mewn cariad oedd yr haul a'r lleuad adeg eclips
- Roedd pobl yr Inuit yn credu fod yr haul a'r lleuad yn gadael yr awyr yn ystod eclips, ac yn dod i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn ar y Ddaear
- Roedd pobl eraill yn credu bod draig fawr yn dod i fwyta'r haul yn ystod eclips, ac felly bydden nhw'n gwneud popeth yn eu gallu i ddychryn i ddraig i ffwrdd er mwyn cael golau dydd unwaith eto. Bydden nhw'n gweiddi, yn taro'u drymiau, yn curo'u cŵn er mwyn gwneud iddyn nhw ddechrau udo ac yn saethu tân i'r awyr i geisio llosgi'r ddraig.

A phwy sy'n gwybod – efallai mai'r bobl yma sy'n iawn, gan fod yr haul wedi dod nôl i'r awyr eto ar ôl pob eclips ... hyd yn hyn, beth bynnag!

Gadewch i ni droi'r cloc yn ôl 500 mlynedd i'r flwyddyn 1518 – oes pan nad oedd pobl yn gwybod nac yn deall llawer am seryddiaeth, gwyddoniaeth a'r planedau. Rydych chi allan yn y caeau yn mwynhau gyda'ch ffrindiau pan mae eclips ar yr haul yn digwydd.

- Ysgrifennwch ddisgrifiad o beth sy'n digwydd a sut rydych chi a'ch ffrindiau'n teimlo.

Cofiwch:

- does gyda chi ddim syniad am eclips yr haul
- defnyddiwch eich synhwyrâu i gyd wrth ddisgrifio
- defnyddiwch idiomau wrth ddisgrifio, os yn addas
- defnyddiwch gymariaethau i wneud i'r darn fod yn fwy diddorol.